OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1856 (Cy.180)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarndaliadau Addysg Ôl-orfodol) (Cymru) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *16 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Awst 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y rheoliadau canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 518(1)(b) a (2) a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarndaliadau Addysg Ôl-orfodol) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Awst 2002.

**Diddymu, eithrio a darparieth drosiannol**

**2.**—(1) Diddymir Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarndaliadau Addysg Ôl-orfodol) 1999(**3**) mewn perthynas ag awdurdodau addysg lleol yng Nghymru, ond mae'r rheoliadau a ddiddymwyd yn parhau'n gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddyfarndaliadau o dan y rheoliadau hynny a wnaed cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(2) Bernir i unrhyw benderfyniad a wnaed gan awdurdod addysg o dan reoliad 4 o'r rheoliadau a ddiddymwyd mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2002—2003 gael ei wneud o dan reoliad 5 o'r Rheoliadau hyn.

**Dehongli**

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "awdurdod addysg" ("*education authority*") yw awdurdod addysg lleol yng Nghymru;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben â 31 Mawrth;

(**1**) 1996 p.56. Amnewidiwyd adran 518 gan adran 129 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynullaid Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S.1999/229.

ystyr "cyfleusterau addysgol" ("*educational facilities*") mewn perthynas â pherson cymwys yw—

(a) addysg uwchradd a ddarperir mewn ysgol, neu

(b) cwrs llawnamser neu ran-amser o addysg bellach neu addysg uwch mewn sefydliad addysgol neu fel arall, ar wahân i (oni bai fod y dyfarndaliad yn Grant Dysgu'r Cynulliad) gwrs y mae person yn gymwys i gael cymorth ariannol ar ei gyfer ar ffurf grant neu fenthyciad o dan reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysg Uwch 1998(**4**);

ystyr "Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad" ("*the Assembly Learning Grant Scheme*") yw'r cynllun a sefydlwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ac sy'n nodi'r amodau ynghylch gwneud grant gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliadau a wneir o dan adran 484 o Ddeddf Addysg 1996(**5**) i ad-dalu gwariant gan awdurdodau addysg wrth dalu Grantiau Dysgu'r Cynulliad, sef gwariant a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y rheoliadau hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol dan sylw;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "dyfarndal addysg ôl-orfodol" ("*post-compulsory education award*") yw dyfarndal a roddir gan awdurdod addysg o dan reoliad 4;

ystyr "Grant Dysgu'r Cynulliad" ("*Assembly Learning Grant*") yw dyfarndal addysg ôl-orfodol i berson sy'n dilyn cwrs o addysg bellach neu addysg uwch a ddynodwyd at ddibenion Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad os yw'r person hwnnw'n bodloni gofynion cymhwyster y Cynllun hwnnw;

ystyr "person cymwys" ("*eligible person*") yw person dros yr oedran ysgol orfodol;

ystyr "y rheoliadau a ddiddymwyd" ("*the revoked regulations*") yw'r rheoliadau a ddiddymwyd gan reoliad 2.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, y mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sydd â'r rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn ac y mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff yn gyfeiriad at baragraff yn y rheoliad hwnnw.

### Pŵer i roi dyfarndaliadau addysg ôl-orfodol

**4.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) bydd gan awdurdod addysg y pŵer i roi dyfarndal addysg ôl-orfodol, sef—

(a) ysgoloriaeth,

(b) gwobr,

(c) bwrsariaeth, neu

(d) unrhyw lwfans arall

mewn perthynas â pherson cymwys at ddiben galluogi'r person hwnnw i gymryd mantais o unrhyw gyfleusterau addysgol sydd ar gael iddo.

(2) Ac eithrio pan fydd y dyfarndal yn Grant Dysgu'r Cynulliad—

(a) ni cheir arfer y pŵer yn is-adran (1) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol os yw'r awdurdod addysg wedi penderfynu o dan reoliad 5 na ddylai gael ei arfer mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol honno, a

(b) pan fydd yr awdurdod addysg, mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol, wedi penderfynu o dan reoliad 5 na cheir arfer y pŵer ond o ran personau cymwys a all fodloni meini prawf penodol, caiff yr awdurdod arfer y pŵer o dan is-adran (1) i roi dyfarndal

(**4**) 1998 p.30.

(**5**) Y rheoliadau cyfredol a wneir o dan 484 o Ddeddf Addysg 1996 yw Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) (O.S. 2002/1857 (Cy.181).

addysg ôl-orfodol ond mewn perthynas â pherson cymwys sy'n bodloni'r meini prawf hynny.

**Awdurdod addysg yn penderfynu**

**5.**—(1) Rhaid i awdurdod addysg benderfynu mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, a ddylai arfer y pŵer yn rheoliad 4(1) mewn perthynas â dyfarndaliadau addysg ôl-orfodol ac os penderfyna wneud felly yn y flwyddyn honno a ddylai wneud hynny—

(a) yn gyffredinol, neu

(b) dim ond yn achos personau cymwys sy'n bodloni'r meini prawf y caiff yr awdurdod benderfynu arnynt.

(2) Rhaid i awdurdod addysg benderfynu o dan baragraff (1)—

(a) mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2002–2003, o fewn tri mis i'r Rheoliadau hyn ddod i rym (oni bai i'r awdurdod hwnnw benderfynu'n barod mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol honno o dan reoliad 4 o'r rheoliadau a ddiddymwyd); a

(b) mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ganlynol, yn y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben â diwrnod cyntaf y flwyddyn honNo.

(3) Ni fydd unrhyw benderfyniad o dan baragraff (1) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol yn effeithio ar rwymedigaeth barhaus yr awdurdod addysg i wneud taliadau o dan ddyfarndal addysg ôl-orfodol ac a roddir mewn perthynas â pherson cymwys cyn y dyddiad y bydd y penderfyniad yn cymryd effaith.

(4) Yn union wedi i awdurdod addysg benderfynu o dan baragraff (1) mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol, rhaid iddo gymryd y camau y barna eu bod yn rhesymol i'w cymryd er mwyn dod ag effaith y penderfyniad at sylw'r personau hynny y mae'n debygol y bydd yn effeithio arnynt.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D Elis-Thomas*
16 Gorffennaf 2002 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diddymu ac yn ailddedfu, gyda rhai newidiadau, Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarndaliadau Addysg Ôl-orfodol) 1999 o ran awdurdodau addysg lleol (AALlau) yng Nghymru.

Mae'r newidiadau wedi cael eu gwneud o ganlyniad i gyflywno Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad. O dan y Cynllun hwnnw, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ad-dalu gwariant yr AALlau ar dalu'r dyfarndaliadau addysg ôl-orfodol hynny o'r enw Grantiau Dysgu'r Cynulliad, i bobl sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach neu addysg uwch ac sy'n bodloni'r amodau ynghylch adnoddau ariannol a meini prawf cymhwyster eraill y Cynllun.

Mae'r pŵer a roddwyd i AALlau gan y rheoliadau blaenorol i ddyfarnu ysgoloriaeth, gwobr, bwrsariaeth neu ddyfarndal arall i "berson cymwys", hynny yw, person dros oed addysg ôl-orfodol, yn parhau. Gellir rhoi dyfarndal o'r fath er mwyn galluogi person cymwys i gymryd mantais o gyfleusterau addysgol penodol sydd ar gael iddo, sef addysg uwchradd a roddir mewn ysgol, neu gwrs o addysg bellach neu addysg uwch. Gwaharddodd y rheoliadau blaenorol ddyfarndaliadau i bobl sy'n gymwys i gymorth ariannol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac mae'r gwaharddiad hwn yn parhau, ond y mae wedi ei ddatgymhwyso mewn perthynas â Grantiau Dysgu'r Cynulliad.

Roedd y rheoliadau blaenorol yn ei gwneud yn ofynnol i bob AALl wneud penderfyniad, o ran pob blwyddyn ariannol, a fyddai'n cymhwyso ei bŵ er i wneud dyfandaliadau addysg ôl-orfodol yn y flwyddyn honno, ac os felly, i ba raddau. Mae'r gofyniad hwnnw yn parhau fel y mae'r gofyniad i ddod ag unrhyw bederfyniad o'r fath at sylw'r bobl y mae'n debygol y bydd yn effeithio arnynt. Nid yw'r penderfyniad yn effeithio ar unrhyw rwymedigaeth sydd gan yr AALl hwnnw i wneud taliadau o dan ddyfarndaliadau a roddir cyn iddo gymryd effaith. Ond nid oes gan AALlau ddim pwerau i wneud penderfyniad o'r fath o ran Grantiau Dysgu'r Cynulliad.